



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board



Cwmni Adsefydlu Cymunedol
Cymru
Wales
Community Rehabilitation Company



Gweithredir gan / Operated by Working Links



De Cymru
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
South Wales

National
Probation
Service



Strategaeth

Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Caerdydd a Bro Morgannwg 2018 - 2023

Adroddiad Cynnydd y Cynllun Gweithredu - 2021/22

Mae yn ein dwylo ni

NODAU:




PARATOI

Gwella'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau VAWDASV yn strategol trwy agwedd partneriaeth mwy cydlynol ledled y rhanbarth.



CANLYN

Delio â throseddwyr VAWDASV trwy wella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu mewn gwasanaethau a'r defnydd o bwerau cyfreithiol i ymyrryd ac euogfarnu.



ATAL

Delio'n rhagweithiol ag agweddau ac ymddygiadau negyddol sydd â'r potensial o arwain at VAWDASV, gan gydnabod bod hyn yn 'fater i bawb'.



AMDDIFFYN

Gwella ymateb a chymorth amlasiantaeth i bob dioddefwr VAWDASV a'u plant, ni waeth lefelau risg neu anghenion



CYMORTH




Sicrhau bod gwasanaethau arloesol a hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i fodloni anghenion dioddefwyr sy'n profi ffurfiau ar VAWDASV

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad cynnydd hwn ar y cynllun gweithredu ar gyfer 2020/21 yn amlinellu'r bedwaredd flwyddyn o weithredu Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023.

Datblygwyd y cynllun gweithredu gan bob partner sy'n rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth, a defnyddir yr un dull partneriaeth i sicrhau bod gweithgareddau'r cynllun gweithredu'n cael eu cyflawni.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn defnyddio'r graddau CMG canlynol drwyddi draw:


-  - Yn dangos cynnydd gwael neu ddim cynnydd, neu nad yw'r gweithgaredd yn berthnasol mwyach
-  - Yn dangos rhywfaint o gynnydd, neu fod angen newid y gweithgaredd
-  - Yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud neu fod y gweithgaredd wedi'i gwblhau



Mae pob gweithgaredd a nodwyd i'w gwblhau ym mlwyddyn ariannol 2021/22 o dan bob un o'r 5 pennawd, sef Paratoi, Dilyn, Atal, Diogelu a Chefnogi, wedi'i drafod, ynghyd â'r diweddariadau gwybodaeth o gamau gweithredu 2020/21 lle bônt yn berthnasol. Cynhwysir hefyd y gweithgareddau allweddol y bwriedir ymdrin â hwy yn ystod 2022/23.

Lle bo angen, mae camau gweithredu newydd wedi'u nodi, ynghyd â newidiadau i'r camau gweithredu presennol.

NODYN: Oherwydd y pandemig COVID19, nid yw rhai camau gweithredu wedi symud ymlaen o fewn yr amserlenni a amlinellwyd yn wreiddiol. Bydd camau gweithredu sy'n gofyn am waith pellach yn cael eu datblygu yn ystod 2022-23 lle bo hynny'n bosibl.

Lluniwyd y ddogfen Mai 2022







PARATOI			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Asesiad Anghenion	Gwella dulliau casglu data yn barhaus i roi gwell gwybodaeth i asesiad anghenion parhaus	Bob Blwyddyn ac yn Barhaus	
Llywodraethu	Gweithredu ac adolygu trefniadau llywodraethu yn barhaus, gan gynnwys aelodaeth, i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben	Parhaus	

Mae asesiad o anghenion rhanbarthol sy'n cwmpasu data ar gyfer y cyfnodau 2019-20, 2020-21 a 2021-22 yn parhau. Mae gwybodaeth yn cael ei chasglu o fwy o ffynonellau nag o'r blaen a bydd yn parhau i gael ei defnyddio i wella darpariaeth leol ar lefel strategol a gweithredol. Defnyddir y data hefyd i lywio ein strategaeth ranbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2023-2028.

Er mwyn paratoi ar gyfer y Cynllun Lles Lleol diwygiedig ar gyfer Caerdydd, a'r Cynllun Ardal diwygiedig ar gyfer Caerdydd a'r Fro, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi gofyn am ymarfer mapio llywodraethu partneriaeth er mwyn deall trefniadau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd 'fel y maent' yng Nghaerdydd ac ar draws y rhanbarth. Mae llywodraethiant grŵp Gweithredol VAWDASV yn rhan o'r adolygiad ehangach hwn. Yn ystod 2022, sefydlwyd grŵp Gweithredol VAWDASV Caerdydd a'r Fro gyda 2 gyfarfod yn cael eu cynnal, gan ddod â phartneriaid allweddol o bob rhan o'r rhanbarth at ei gilydd.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
Cyflwyniad	Gweithio tuag at ddatblygu cyd-strategaethau a pholisïau rhanbarthol perthnasol lle y bo'n bosibl	Mawrth 2023

DILYN			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Defnydd Diogel o Dechnoleg	Cyflwyno ymgyrchoedd lleol i dynnu sylw at ddefnydd diogel o dechnoleg	Parhaus	
Gweithio gyda Thramgwyddwyr	Ystyried opsiynau ar gyfer darparu amrywiaeth o ymyriadau tramgwyddwyr cymunedol	Parhaus	
Annog Dioddefwyr i Roi Gwybod	Annog a chefnogi mwy o ddioddefwyr i ymgysylltu â gorfodwyr y gyfraith i ystyried datrysiadau troseddol a sifil	Parhaus	
Ymateb Cyfiawnder Troseddol	Gwella'r gwaith o fonitro canlyniadau achosion sy'n ymddangos gerbron Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron	Mawrth 2022 (Mawrth 2021 o'r blaen)	

Archwilir defnydd diogel o dechnoleg yn ystod y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Grŵp 2 gyda mynychwyr yn cael eu hannog i lawrlwytho'r ap BrightSky. Mae ymgyrchoedd Byw Heb Ofn wedi cael eu rhannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol gan dynnu sylw at y cyfleoedd cyswllt gwe-sgwsio ac e-bost ochr yn ochr â'r prif rif rhadffon. Bydd y gwaith yn parhau yn ystod 2022-23 gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o rôl technoleg mewn ymddygiad stelcian.

Mae Merthyr Tudful Mwy Diogel bellach yn rheoli'r contractau ar gyfer ein darpariaeth i gyflawnwyr cymunedol ledled y rhanbarth – sef CLEAR, 'Driving Change' a DRIVE. Mae DRIVE bellach wedi'i wreiddio ar draws y rhanbarth a dechreuodd y rhaglen 'Driving Change' ym mis Medi 2021 gyda'r elfen gwaith grŵp yn dechrau ym mis Mawrth 2022. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i gynyddu atgyfeiriadau ymarferwyr i'r ymyriad codi ymwybyddiaeth CLEAR sydd wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Mae cyfraniad ein darparwyr arbenigol a gomisiynwyd, RISE ac Atal y Fro, yn parhau i fod yn ganolog i ddarpariaeth ddiogel. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i alinio llwybrau atgyfeirio ar gyfer pob un o'r 3 ymyriad cymunedol er mwyn galluogi cyfle 'camu i fyny a chamu i lawr' di-dor i gyfranogwyr, yn unol â risg. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2022-23

Mae fframwaith cydymffurfio'r Cod Ymarfer Dioddefwyr yn chwarter olaf y peilot ac mae'n mynd rhagddo'n dda. Mae dangosfwrdd data yn cael ei ddatblygu i gefnogi dadansoddiad o gydymffurfiaeth a llywio profiadau dioddefwyr. Cyflwynwyd adroddiad diwedd blwyddyn ar adborth y peilot i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol a Rheoli Integredig Troseddwyr De Cymru, yn ogystal â'r Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion.










Mae gwaith i gynyddu nifer y dioddefwyr sy'n defnyddio'r Safle Pell HMTCS ym Mro Morgannwg wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n manteisio arno (oherwydd ymrwymiad partneriaid cyfiawnder troseddol). Mae cyfleusterau Cyswllt Diogel bellach wedi'u sefydlu ac yn weithredol ym Mro

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Morgannwg. Bu oedi cyn sefydlu safle tystiolaeth o bell i fenywod yng Nghaerdydd oherwydd materion TG, ond dylid datrys hyn o fewn Ch1 2022/23. Mae safle tystiolaeth o bell ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd yng Nghaerdydd hefyd yn agos at gael ei gytuno a'i gwblhau.

Parhaodd canlyniadau achosion i gael eu monitro ar draws y rhanbarth drwy Grŵp Gweithredol y Llys Cam-drin Domestig Arbenigol er bod angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod canlyniadau achosion a glywir yn Llys y Goron yn cael eu monitro.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
Ymateb Cyfiawnder Troseddol	Cynyddu nifer y canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr	Mawrth 2023

ATAL			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Adolygiadau Ffurfiol	Sicrhau bod yr hyn a ddysgir o bob adolygiad gwasanaeth ffurfiol, gan gynnwys ADDau, yn cael ei adlewyrchu mewn gwasanaeth a'i rannu'n eang	Mehfin 2020 (yn mynd rhagddo nawr)	
	Gweithredu unrhyw newidiadau polisi Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'i hadolygiad o brosesau ADD	I'w gadarnhau (yn mynd rhagddo nawr)	
Trais Rhywiol	Codi ymwybyddiaeth o gydsyniad ar bob cyfle	Parhaus	
Stelcian	Codi ymwybyddiaeth o stelcian a hyrwyddo'r camau ymarferol o roi gwybod	Parhaus	
Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Gweithredu'r cynllun hyfforddi rhanbarthol i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi'n unol â'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Mawrth 2022	
Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB)	Cynyddu dealltwriaeth ysgolion o AOCB a sut i ymateb	Mawrth 2022	
Economi'r Nos	Helpu i weithredu'r camau gweithredu o'r strategaeth 'Creu Economi Nos Ddiogel a Chroesawgar'	Mawrth 2022	
Gweithwyr Rhyw	Codi ymwybyddiaeth ar draws y rhanbarth o'r materion a wynebir gan weithwyr rhyw.	Mawrth 2022	
Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern	Ehangu cyrhaeddiad y modiwl ymwybyddiaeth Masnachu Pobl drwy'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol	Mawrth 2022	

Mae'r rhanbarth yn parhau i gyfrannu at broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl Llywodraeth Cymru, a bydd partneriaid yn cymryd rhan ym mhroses Ymgynghori Llywodraeth Cymru a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2022. Yn ystod 2021-22, mae'r Swyddfa Gartref wedi cymeradwyo dau Adroddiad Dynladdiad Domestig, ac mae un ohonynt wedi'i gyhoeddi ac ar gael ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nid yw un adroddiad wedi'i gyhoeddi yn unol â chytundeb y Swyddfa Gartref. Yn ystod y cyfnod hwn, anfonwyd tri Adroddiad Dynladdiad Domestig arall i'r Swyddfa Gartref i gael sylwadau arnynt. Yn unol â cham gweithredu o Adolygiad Dynladdiad Domestig, mae gweithwyr cymdeithasol ledled Caerdydd wedi cael eu hyfforddi i weinyddu'r Rhestr Wirio Adnabod Risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH RiC). Hyd yma, mae dros 200 o staff sy'n gweithio ar draws gofal cymdeithasol a thai wedi derbyn yr hyfforddiant hwn sydd hefyd yn cynnwys trosolwg o'r broses MARAC leol. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ymgorffori yn yr hyfforddiant craidd 'Pencampwr Gweithle' Grŵp 3 Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol rhanbarthol yn ystod 2022-23.

Mae Yn Ein Dwylo Ni - Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2023

Oherwydd y pandemig, mae cyfleoedd i gyflwyno ymgyrchoedd penodol o gwmpas trais rhywiol a chydsyniad wedi parhau i gael eu cyfyngu i ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol. Cafodd yr ymgyrch 'Call out only' genedlaethol a oedd yn cynnwys deunyddiau yn ymwneud â thrais rhywiol ac aflonyddu ei lledaenu'n eang gan bartneriaid allweddol.

Trefnwyd dwy sesiwn frifio ar-lein wedi'u hanelu at ymarferwyr sy'n gweithio gyda theuluoedd ar draws y rhanbarth lle gallai stelcian a rheolaeth drwy orfodaeth fod yn bresennol gan Gyngor Caerdydd yn ystod 2021/22, fodd bynnag, oherwydd y pandemig Covid gohiriwyd y sesiynau hyn. Bydd y sesiynau Llinell Amser Dynladdiad Domestig, a gyflwynir gan yr Athro Jane Monckton Smith, yn cael eu cynnal yn ystod mis Mai 2022.

Mae Grwpiau 1, 2 a 6 y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol wedi parhau i gael eu darparu ar draws 'awdurdodau perthnasol' yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol. Mae Grwpiau 1 a 2 yn parhau i gael eu cyflwyno ar-lein ac ym mis Hydref 2021 aeth 56 o reolwyr ac uwch arweinwyr o bob rhan o'r rhanbarth i weithdy ar-lein Grŵp 6 a gyd-gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a Chymorth i Fenywod yng Nghymru. Oherwydd y pandemig Covid gohiriwyd y broses o gyflwyno Grŵp 3 ymhellach ond mae gwaith wedi'i wneud i baratoi deunyddiau yn barod i hyfforddiant amlasiantaethol wyneb-yn-wyneb ddechrau ym mis Mehefin 2022.

Cyfarfu cynrychiolydd o Wasanaethau Plant Cyngor Caerdydd ag Arweinydd AOCB Bryste ac mae dogfennau allweddol wedi'u rhannu, ond ataliwyd y gwaith hwn oherwydd COVID. Bydd y camau hyn yn cael eu cymryd yn ystod 2022 drwy'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.









Yn ystod 2022, dechreuodd y Cydgysylltydd Cam-drin Domestig fynychu'r cyfarfodydd misol Economi'r Nos amlasiantaethol yng Nghaerdydd. Mae partneriaid ledled Caerdydd wedi cymryd rhan weithredol ym mhroses ymgeisio'r Faner Borffor a chyflwynwyd ceisiadau cydweithredol am Strydoedd Mwy Diogel, a ddatblygwyd gan bartneriaid rhanbarthol, i'r Swyddfa Gartref.

Mae Bywyd Stryd Cymru Ddiogelach yn parhau i ddarparu cymorth yn ystod y dydd ac allgymorth gyda'r nos i fenywod sy'n cael eu hecsbloetio gan buteindra yng Nghaerdydd. Mae ymgysylltiad wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Gwnaed rhywfaint o waith arloesol i annog menywod sy'n cael eu hecsbloetio gan buteindra yng Nghaerdydd i gael eu brechu rhag COVID.

Mae gan Gyngor Caerdydd eisoes fodiwl e-ddysgu Caethwasiaeth Fodern yn ei le ar gyfer staff er y bydd hyn yn cael ei adolygu yn ystod 2022/23 gydag arweinydd Caethwasiaeth Fodern Llywodraeth Cymru. Mae'r Rheolwr VAWDASV ym Mro Morgannwg yn parhau i fynychu grŵp gweithredol Caethwasiaeth Fodern Cymru Gyfan a'r grŵp Caethwasiaeth Fodern rhanbarthol. Datblygwyd canllaw newydd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) ar Gaethwasiaeth Fodern yn benodol ar gyfer swyddogion cyngor sy'n arwain ac yn gweithio yn y maes digartrefedd a gwasanaethau tai a bydd hwn ar gael ym mis Ebrill 2022.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL

Nid oes unrhyw weithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol, ond bydd camau gweithredu a nodwyd yn ystod 2021/22 y mae angen gweithredu ymhellach arnynt yn parhau yn ystod 2022/23.

DIOGELU			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Datgeliadau Cyfraith Clare / Cyfraith Sarah	Hyrwyddo Cynlluniau Datgelu ymhellach ar bob cyfle	Parhaus	
Llysoedd Arbenigol	Gweithio gydag ymgyrchwyr i gryfhau lleisiau dioddefwyr ym mhob llys	Parhaus	
Rheoli Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDCau) VAWDASV	Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwelliant parhaus y MASH	Bob blwyddyn	
	Monitro ymateb y gwasanaeth arbenigol i HDCau yn ofalus	Bob blwyddyn	
Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)	Gwella ansawdd atgyfeiriadau MARAC ar draws y rhanbarth	Bob blwyddyn	
Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	Monitro'r defnydd o lety brys/argyfwng yn barhaus i sicrhau bod darpariaeth ar gael i'r rheini sydd ei hangen fwyaf	Bob blwyddyn	
Caledu Targedau	Adolygu'r opsiynau caledu targedau sydd ar gael a datblygu dull rhanbarthol	Mawrth 2022	
Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)	Cynnal adolygiad strategol o'r holl MARACau sy'n gweithredu yn y rhanbarth ac ystyried symleiddio lle y bo'n ymarferol.	Mawrth 2022	

Mae Cyfraith Clare yn parhau i gael ei thrafod fel rhan o Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol Grŵp 2 ac mae hefyd wedi'i chynnwys yn y deunyddiau hyfforddi Grŵp 3. Cyflwynwyd sesiwn benodol am Gyfraith Clare gan Heddlu De Cymru fel rhan o'n gweithgareddau Rhuban Gwyn 2021. Roedd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn nifer o sefydliadau o bob rhan o'r rhanbarth yn bresennol yn y sesiwn hon.









Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae gwaith wedi parhau gyda Chynghorwyr Rhanbarthol ledled Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gynyddu cyfleusterau tystiolaethu o bell at ddefnydd dioddefwyr y mae angen iddynt roi tystiolaeth mewn Llysoedd Ynadon a Llysoedd y Goron.

Mae Safe Lives wedi'u comisiynu i gynnal adolygiad annibynnol o MARAC ar draws y rhanbarth. Gohiriwyd y gwaith hwn oherwydd Covid,

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL		
Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai	Asesu effaith newidiadau diwygio lles a'r Ddeddf Rhentu Cartrefi ar lety arbenigol i ddiodefwyr	Mawrth 2023

ond cytunwyd ar gwmpas yr adolygiad gyda'r gwaith i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2022. Caiff y cam gweithredu hwn ei adolygu yn ystod 2022/23.

Mae adolygiad o Galedu Targedau wedi dechrau yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Cymerodd Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ran yn yr astudiaeth gwmpasu a ddatblygwyd gan Brifysgol Huddersfield, Mentrau Atal Troseddu'r Heddlu, cangen darpariaeth atal troseddu Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a geisiodd sefydlu pryd a sut y defnyddir datrysiadau diogelwch corfforol mewn achosion o gam-drin domestig. Mae data'r cyngor wedi'i goladu ac ar ddiwedd y cyfnod adrodd data hwn roedd yn cael ei ddadansoddi. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2022/23.

CEFNOGI			
Adran	Byddwn yn	Erbyn	Cynnydd
Dioddefwyr Gwrywaidd	Comisiynu gwasanaeth dioddefwyr gwrywaidd arbenigol gyda phartneriaid rhanbarthol ehangach	Mawrth 2021 *	
Ymchwil	Cyfrannu'n weithredol at brosiectau ymchwil ystyrlon i ehangu dealltwriaeth a gwella gwasanaethau	Parhaus	
Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr	Parhaus	
Dioddefwyr LHDTTC+	Sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i ddiodefwyr LHDTTC+	Parhaus	
Anghenion Cymhleth / Triawd Tocsig	Sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ystyried a gweithredu ar sut mae anghenion cymhleth yn effeithio ar oedolion a phlant	Mawrth 2022	
Dioddefwyr LHDTTC+	Atgyfnerthu cysylltiadau â sefydliadau LHDTTC+ arbenigol i wella gwasanaethau a chyfraddau adrodd	Mawrth 2022	
Gweithwyr Rhyw	Ystyried ffyrdd newydd o nodi, gwarchod a diogelu gweithwyr rhyw a'r cymunedau yr effeithir arnynt	Mawrth 2022	
Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (CAYRh)	Sefydlu model 'Prif Ganolfan a Lloerennau' CAYRh ar gyfer diodefwyr trais rhywiol ledled de-ddwyrain Cymru	Mawrth 2022	

Bydd gwasanaeth dioddefwyr gwrywaidd yn cael ei lansio ym mis Mehefin 2022. Yn yr un modd â'r gwasanaeth i ddiodefwyr benywaidd, mae'r gwasanaeth newydd arfaethedig yn defnyddio amrywiaeth o ffrydiau ariannu a phartneriaid cyflenwi presennol i dreialu llwybr gwasanaeth mwy holistig a chadarn ar gyfer dynion sy'n dioddef trais a cham-drin domestig a/neu rywiol. Mae'r cynllun peilot arfaethedig yn argymhell dull partneriaeth rhwng y prosiect Dyn a'r Grŵp Pobl i barhau i gynnig eu cymorth arbenigol priodol ond mewn ffordd fwy cydweithredol. Bydd Dyn yn parhau i gynnig eu harbenigedd o ran rheoli atgyfeiriadau ac ar gyfer cynnal asesiadau cynhwysfawr o anghenion a risg. Bydd Pobl yn darparu'r elfen gymorth mewn llety ac yn y gymuned, gan helpu i gael mynediad at wasanaethau cymorth eraill yn ôl yr angen.

Mae Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Ynys Saff i fod i ddarparu un gwasanaeth 'Hyb' i oedolion yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Diben Hyb CAYRh yw darparu gofal ar unwaith i'r cleient gan gynnwys archwiliad meddygol fforensig ac asesiad o anghenion iechyd aciwt gan gynnwys iechyd rhywiol. Mae 'Lloerennau' CAYRh yn darparu cymorth ETRhA parhaus drwy'r broses cyfiawnder troseddol. Bydd Caerdydd, Rhisga a Merthyr yn darparu gwasanaethau Lloeren. Mae'r prif ganolfannau a'r lloerennau yn cynnwys iechyd, yr heddlu a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Yn ogystal â gweithio gydag oedolion, mae Ynys Saff yn parhau i weithredu fel canolfan bediatrig ar gyfer De-ddwyrain Cymru.

Er bod llawer o waith wedi digwydd yn ystod y cyfnod hwn, mae'r pandemig COVID wedi gohirio llawer o gamau gweithredu sy'n ymwneud â rhyngsectoredd ymhellach. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yn ystod 2022/23.

GWEITHGAREDD YN Y DYFODOL

Nid oes unrhyw weithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol, ond bydd camau gweithredu a nodwyd yn ystod 2021/22 y mae angen gweithredu ymhellach arnynt yn parhau yn ystod 2022/23.